

## DEDDF IECHYD ANIFEILIAID 1981

### GORCHYMYN TWBERCWLOSIS (CYMRU) 2010 (O.S.2010/1379) (FEL Y'I DIWYGIWYD)

#### TRWYDDED GYFFREDINOL I SYMUD GWARTHEG SYDD HEB GAEL PRAWF TWBERCWLOSIS CYN SYMUD AC AR OL SYMUD I AC O DIR COMIN

Yn unol ag erthyglau 13, 13A a 23 o Orchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010 (fel y'i diwygiwyd), mae Gweinidogion Cymru drwy'r drwydded gyffredinol hon, yn awdurdodi symud gwartheg sydd heb gael prawf croen cyn symud neu brawf croen ar ôl symud gyda chanlyniadau prawf negyddol, i ac o dir comin yng Nghymru, cyn belled ag y cedwir at amodau'r drwydded hon.

Daw'r drwydded hon i rym am 01 o'r gloch ar 3 Mawrth 2021.

Llofnodwyd gan .....



(Stefan Craus, Tim TB)

O dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion  
Gwledig, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 3 Mawrth 2021

#### **Amodau:**

- 1) Ceidwad yr anifeiliaid ar y tir comin yw'r unig borwr gwartheg ac mae'r tir comin wedi'i uno â'r prif ddaliad (prif leoliad cynhyrchu – PPL) y caiff yr anifeiliaid eu symud ohono neu iddo.
- 2) Dylai'r ceidwad gadw cofnodion yr holl anifeiliaid sydd wedi'u symud o dan awdurdod y drwydded gyffredinol hon gan gynnwys y rheolau swyddogol ar dagio'r anifeiliaid a dyddiad a chyfeiriad y symudiad.
- 3) Ni chaniateir symud gwartheg i'r eiddo nac oddi arno os bydd symudiad o'r fath yn groes i unrhyw gyfyngiadau TB neu glefyd hysbysadwy arall sydd mewn grym adeg y symudiad arfaethedig.
- 4) Mae mynd yn groes i amodau'r drwydded hon yn drosedd o dan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981.

Nodiadau:

- i) Y "Gorchymyn" yw Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2019 (O.S.2010/1379) (fel y'i diwygiwyd).
- ii) Mae gwartheg yn y cyd-destun hwn yn golygu gwartheg domestig o'r genws Bos, byfflos a beison.
- iii) Unig borwr gwartheg yw'r unig geidwad sydd a hawliau i bori gwartheg ar y tir comin ac sy'n cadw gwartheg ar y tir comin hwnnw.
- iv) 0 dan Erthygl 13 o'r Gorchymyn:

(1) Ni chaiff unrhyw un symud gwartheg o unrhyw eiddo oni bai:

- (a) bod prawf croen wedi'i gynnal arnynt ddim mwy na 60 niwrnod cyn dyddiad eu symud; a
- (b) bod archwilydd neu filfeddyg cymeradwy wedi darllen canlyniadau'r prawf a bod y canlyniadau'n negyddol.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i

- (a) loi o dan 6 wythnos oed ar ddiwrnod y symudiad;
- (b) gwartheg sy'n cael eu symud i gael triniaeth filfeddygol - cyn belled â'u bod yn dod yn ôl yn syth i'r safle y daethant ohono ar ôl y driniaeth, neu eu bod yn cael eu lladd neu'n cael eu hanfon yn syth i'r lladd-dy;
- (c) unrhyw symudiadau a nodwyd yn Atodlen 2; ac
- (d) unrhyw symudiad a gymeradwyir gan Weinidogion Cymru.**

v) 0 dan Erthygl 13A y Gorchymyn.

(1) Ceir tair ardal dwbercwlosis yng Nghymru, sef

- (a) yr ardal TB isel;
- (b) yr ardal TB ganolradd;
- (c) yr ardal TB uchel.

(2) Pam symudir gwartheg i'r ardal TB isel o fuches yn

- (a) yr ardal TB ganolradd;
- (b) yr ardal TB uchel;
- (c) Lloegr; neu
- (d) Gogledd Iwerddon,  
rhaid i'r ceidwad sy'n derbyn yr anifail drefnu bod milfeddyg cymeradwy yn cynnal prawf ar ôl symud arno ddim llai na 60 niwrnod ond ddim mwy na 120 diwrnod ar ôl y dyddiad y cyrhaeddodd y daliad sy'n ei dderbyn.

- (3) Nid yw paragraff (2) yn gymwys i
- (a) wartheg sy'n cael eu lladd o fewn 120 niwrnod ar ôl cyrraedd y daliad sy'n eu derbyn;
  - (b) gwartheg sy'n cael eu symud i gael triniaeth filfeddygol - cyn belled â'u bod yn dod yn ôl yn syth i'r safle y daethant ohono ar ôl y driniaeth, neu eu bod yn cael eu lladd neu'n cael eu hanfon yn syth i'r lladd-dy;
  - (c) unrhyw symudiadau a nodwyd yn Atodlen 3; ac
  - (d) **unrhyw symudiad a gymeradwyir gan Weinidogion Cymru.**
- (4) Pan fydd angen cynnal prawf croen ar ôl symud ar wartheg o dan paragraff (2), ni chaiff unrhyw un symud yr anifail hwnnw o'r eiddo y cafodd ei symud iddo tan y bydd y prawf croen wedi'i gwblhau gyda chanlyniad negyddol oni bai ei fod yn cael ei symud -
- (a) yn syth (neu drwy fan casglu) i'w ladd;
  - (b) i uned besgi gymeradwy; neu
  - (c) o dan awdurdod trwydded symud a roddwyd gan arolygydd.